Cofnodion cyfarfod rhif 87
Pwyllgor Cynghori Cymru
a gynhaliwyd drwy Teams/rhai wyneb yn wyneb ar 29 Tachwedd 2022

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Hywel Wiliam | Y Cadeirydd |
| Robert Andrews | Aelod |
| Aled Eirug | Aelod |
| Tom Crick | Aelod |
| Angharad Evans | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Sian Phipps | Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu |
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams, | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**
**Dim**

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| **1. Rhagarweiniad**<br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 87 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br>Dim | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2022 a materion sy'n codi**<br>Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2022 eu **CYMERADWYO** heb eu diwygio fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Dyma'r materion a oedd yn codi:-<br>• Eitem 9: Mae'n debygol y bydd Rhwydweithiau Amgen yn cael eu cyfuno ledled y DU, gan gynnwys Cymru. Awgrymodd Melanie Dawes yng nghyfarfod Cadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori y gallai'r broses hon, os rhywbeth, arwain at fwy o wytnwch ymysg y gweithredwyr sy'n weddill. Fodd bynnag, nododd y pwynt ynghylch diffyg dewis o weithredwyr yng Nghymru. Ychwanegodd Michael Grade fod y dewis gwael yn rhai o barciau busnes Cymru yn gyfle sylweddol i weithredwyr eraill gynnig cystadleuaeth i wasanaethau BT.<br>• Eitem 10: Yng nghyfarfod Cadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori â Phrif Weithredwr a Chadeirydd Ofcom, nododd y Pwyllgorau Cynghori fod aelodau Pwyllgorau Cynghori'r Alban a Gogledd Iwerddon yn bryderus iawn ynghylch diffyg llais i'r gynulleidfa ynghylch llywodraethu corfforaethol y BBC a'r gwasanaethau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon. | |
| 4. **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br>• Roedd yr hyfforddiant i Aelodau Newydd – seminar hyfforddi Pwyllgor Cynghori Cymru ar 18 Tachwedd wedi mynd yn dda iawn ac awgrymodd pawb a fu'n bresennol ei fod yn ddefnyddiol iawn. Diolchodd y Cadeirydd i'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | tîm yng Nghaerdydd am eu gwaith caled yn rhoi'r amserlen o gyflwyniadau at ei gilydd.<br>• Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol ynghyd â Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori eraill. Roedd gan Gadeiryddion Pwyllgorau Cynghori ddiddordeb mewn clywed ganddynt am y meysydd lle mae Ofcom yn gwerthfawrogi cyngor gan ei Bwyllgorau Cynghori fwyaf, eu barn ar bwerau niwed ar-lein arfaethedig newydd Ofcom o'i chymharu â dealltwriaeth/disgwyliadau'r cyhoedd a barn y Cadeirydd newydd am yr heriau yn y flwyddyn i ddod.<br>• Y Bil Niwed Ar-lein: Awgrymodd Grade nad y Bil Niwed Ar-lein presennol fyddai'r olaf ac mai'r ddeddfwriaeth oedd yr ymgais gyntaf i sefydlu rheoleiddio yn y maes anodd hwn. Yr oedd yn rhagweld y byddai'r bil yn dod yn gyfraith yr haf nesaf.<br>• Y Bil Cyfryngau: Roedd Grade yn tybio y gallai'r diffyg sŵn ynghylch preifateiddio Channel 4 olygu bod y mater wedi cael ei gladdu ond ni allai fod yn sicr am hyn.<br>• Tariffau Cymdeithasol: Pryderon am ddiffyg ymwybyddiaeth o'r tariffau hyn a bod llawer o ddefnyddwyr incwm isel yn colli allan.<br>• Cyflwyno ffeibr: Er bod y cyflwyno'n mynd rhagddo'n dda yn dilyn penderfyniad Ofcom i ganiatáu mwy o elw ar gostau er mwyn annog buddsoddiad. Ond pryderon am effaith yr argyfwng costau byw ar nifer y defnyddwyr a fyddai'n manteisio ar y ddarpariaeth.<br>• Cododd Cadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori faterion costau byw, darlledu a mudo PSTN/Voip.<br>• Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r cinio a drefnwyd ar gyfer aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC) gyda'r Arglwydd Grade tra'r oedd ar ymweliad â Chymru yr wythnos flaenorol. Roedd yr Arglwydd Grade yn awyddus i wybod mwy am waith y Pwyllgor a chlywed barn. Yn ystod y cyfarfod, awgrymodd Michael y byddai'n ddefnyddiol pe bai PCC yn cynhyrchu adroddiad blynyddol byr (fel y mae'n digwydd, mae Pwyllgor Cynghori'r Alban eisoes wedi bod yn cynhyrchu adroddiad byr dros y blynyddoedd diwethaf). | |
| **Digwyddiadau a fynychwyd** | | |
| | • **Confensiwn Llundain RTS, 27 Medi:** Roedd gan 'The Fight For Attention' restr gynhwysfawr o siaradwyr a oedd yn cynnwys Carolyn McCall, Prif Weithredwr ITV, Tim Davie CBE, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, Alex Mahon, Prif Weithredwr Channel 4 a'r prif siaradwr oedd Michael Grade fel Cadeirydd Ofcom, yn dilyn ei benodiad ar 1 Mai eleni, yn ei araith gyhoeddus gyntaf ers dechrau yn y rôl.<br>• **Cyfarfod Hyb y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu, 12 Hydref:** Roedd y fforwm chwarterol hwn, y mae amrywiaeth o randdeiliaid o Gymru yn cymryd rhan ynddo, yn cynnwys cyflwyniad defnyddiol iawn ar ymchwil diweddaraf Ofcom ynghylch fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu (yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar lefel y DU).<br>• **WISP, 12 Hydref:** Roedd y cyfarfod dal i fyny chwarterol hwn yn cynnwys cyflwyniad gan Gwenno, yn Swyddfa Ofcom Cymru, ar gyfres newydd o dendrau ymchwil (gwerth £50k yr un) a oedd yn cael eu hysbysebu gan Ofcom ar gyfer oedolion hŷn, heriau iechyd meddwl a phlant hŷn (10 - 14).<br>• **Lansiad Media Cymru, 18 Hydref:** Mynychais y digwyddiad hwn a gynhaliwyd yn yr Amgueddfa Genedlaethol. | |

| | |
|---|---|
| • **Cyfarfod Cadeiryddion y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori, 19 Hydref:** Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ddiffodd PSTN ac yn trafod ymchwil meintiol diweddaraf y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu i anghenion defnyddwyr teleffoni llinell dir ac anghenion defnyddwyr wrth reoli'r mudo i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP). O ystyried y problemau sy'n codi mae'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu yn dal yn sicr bod angen ymgyrch gyfathrebu ehangach ynghylch y newid hwn sy'n cael ei arwain gan y diwydiant. | |
| **5. Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom - ar lafar**<br>Rhoddodd yr Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod: -<br>• Mae'r Bwrdd Cynnwys wedi bod yn cynnal adolygiad o'r ffordd y mae'n gweithredu gyda'r bwriad o edrych ar ffyrdd o gael trafodaethau ehangach, mwy thematig a sicrhau bod trafodaeth ar faterion sy'n benodol i'r gwledydd yn cael ei hwyluso.<br>• Sector Cynhyrchu Annibynnol y DU – mae'r gadwyn gwerth teledu yn cael ei thrawsnewid gan dechnoleg, buddsoddiad a newydd-ddyfodiaid. Mae casgliad o heriau o ran yr economi a'r gweithlu yn wynebu'r sector. (e.e. o ystyried y tariffau sydd ar gael gan SVODs) – gan roi pwysau ar gwmnïau yn enwedig y cwmnïau annibynnol llai sydd i'w cael yn aml yn y gwledydd a'r rhanbarthau.<br>• Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw prif gomisiynwyr cynnwys annibynnol y DU o hyd, ac mae'r Telerau Masnach yn darparu amgylchedd sy'n helpu i ddiogelu eu refeniw drwy bechnogaeth dros hawliau eilaidd. Cwestiynau i'w gofyn ynghylch addasrwydd parhaus y tymor masnachu a'u gallu i gefnogi sector annibynnol gwerthfawr y DU. Trafododd y Bwrdd yr heriau sy'n wynebu cwmnïau annibynnol o ran perchnogaeth hawliau wrth negodi â gwasanaethau SVOD byd-eang. Nodwyd hefyd y rôl hanfodol y mae credydau treth y DU yn ei chwarae o ran cefnogi sector annibynnol cystadleuol sy'n gallu denu mewnfuddsoddiad. Ar hyn o bryd mae credydau treth yn canolbwyntio ar gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu o safon uchel. Roedd rhywfaint o drafodaeth ynghylch pa mor ddefnyddiol y gallai fod pe bai hyn yn cael ei ehangu, er enghraifft, i gynnwys cynnwys plant neu'r celfyddydau.<br>• **Ymgynghoriad ar Drwydded Weithredu'r BBC** – O safbwynt y gwledydd roedd y materion o bwys yn cynnwys trafod y llwybr y mae cynulleidfaoedd yn yr Alban yn ei ddilyn i gael gafael ar gynnwys yr Alban. Mae iPlayer yn dod yn fwyfwy amlwg fel y llwybr i gael gafael ar gynnwys o'r fath. Rhannodd aelodau Bwrdd y Gwledydd rywfaint o anesmwythyd a phryder ar draws y gwledydd ynghylch newidiadau i gwotâu tra bod holl aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r angen am foderneiddio ond hefyd realiti cyllidebau rhaglenni llai o ystyried toriadau i gyllid y BBC. | |
| **6. Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br>Roedd y papur diweddaru ar Ddatblygiadau Diweddar yng Nghymru wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Canolbwyntiodd yr aelod o dîm Cymru ar ddau bwynt: -<br>• **Ymweliad yr Arglwydd Grade â Chymru** – amlinellodd rai o'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid yn ystod y ddau ddiwrnod a nododd agwedd gadarnhaol a brwdfrydig y Cadeirydd wrth gwrdd ag amrywiaeth eang o | |

| | |
|---|---|
| randdeiliaid a chlywed pwyntiau o ddiddordeb uniongyrchol a godwyd sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.<br>• **Penderfyniad cychwynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ei hymchwiliad i'r ffordd yr ymgynghorodd Ofcom ar drwyddedu DAB ar Raddfa Fach.** – amlinellodd benderfyniad y Comisiynydd yn dyfarnu bod Ofcom wedi torri ystod o safonau llunio polisi yn y Gymraeg. Nododd yr aelodau y risg i Ofcom o ran enw da, yn enwedig yng ngoleuni diddordeb tebygol y cyfryngau pan gyhoeddir penderfyniad y Comisiynydd. Yn ogystal, nodwyd bod ymchwiliad byw arall yn nwylo'r Comisiynydd, yn ymwneud â defnydd Ofcom o'r Gymraeg a'r cyfryngau cymdeithasol. Cytunwyd y byddai'n werthfawr cynnal adolygiad o gydymffurfiad â safonau Iaith Gymraeg Ofcom. | |
| **7. Trafodaeth: Strategaeth Sbectrwm Gofod**<br>Cyflwynodd y tîm eu hunain i Aelodau'r Pwyllgor a'u hatgoffa mai dyletswydd Ofcom yw sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o'r sbectrwm radio. Y tro diwethaf y cynhaliwyd adolygiad o'r sector sbectrwm gofod oedd yn 2016 ac ers hynny bu nifer o newidiadau yn y sector gan gynnwys amgylchedd economaidd gwahanol a mwy o gapasiti. Ar yr ochr lloeren, cafwyd rhai datblygiadau hefyd. Mae'r lloerennau eu hunain bellach yn llai o ran maint ac wedi dod yn fwy fforddiadwy. Mae hyn yn golygu bod mwy o gyfleoedd yn y sector i newydd-ddyfodiaid ac o ganlyniad mae angen rhoi strategaeth ar waith.<br>Eglurodd y tîm fod pum rhan i'w strategaeth: cyfathrebu ledled y DU; arsylwadau daear o ran yr hinsawdd a'r tywydd; deall y gofod a mynediad iddo; defnyddio ffonau lloeren; a darlledu lloeren.<br>Ychwanegodd y tîm y byddai'n edrych ar Gyfathrebu Lloeren Heb Fod yn Ddaearsefydlog, gan gynnwys sut maen nhw'n defnyddio sbectrwm ac a fydden nhw'n gallu rhannu sbectrwm heb achosi ymyriant, ac a fydden nhw'n gallu defnyddio gwahanol fandiau sbectrwm. Roedd y tîm yn awyddus i weld a ellid datblygu rhagor o arloesi yn y sector, gan gyfeirio at uchelgais One Web and Space, a chyfleoedd newydd ar gyfer y Rhyngrwyd Pethau fel enghreifftiau.<br>Tynnodd Aelod o'r Pwyllgor sylw at y gwaith roedd Apple yn ei wneud a allai alluogi galwadau lloeren brys o'i ffonau. Mewn ymateb i gwestiwn am ddatblygiadau newydd yn y 12 mis nesaf, dywedodd y tîm fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar y farchnad, gan gynnwys yn y gymuned ofod yng Nghymru. | |
| **8. Y wybodaeth ddiweddaraf – Polisi Cyhoeddus**<br>Cafodd Aelodau'r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddatblygiadau a meysydd polisi Seneddol, gan gynnwys y canlynol:<br>• Penodi Rishi Sunak yn Brif Weinidog newydd y Blaid Geidwadol Seneddol, gyda Gweinidogion newydd yn gwasanaethu yn ei lywodraeth<br>• Roedd y Bil Diogelwch Ar-lein i fod i ddychwelyd i'r Senedd ac roedd ei weithrediad ar y trywydd iawn, yn nodi bod y cymal 'cyfreithiol ond niweidiol' i oedolion wedi cael ei dynnu'n ôl a'i ddisodli gan ofyniad ar y llwyfannau i nodi'n glir beth fyddant yn ei wneud yn lle hynny. Nododd Aelodau'r Pwyllgor nad oedd y ddeddfwriaeth hon erioed wedi cael ei gwneud o'r blaen a bod angen rhoi trefn newydd ar waith<br>• Cododd Aelodau'r Pwyllgor fater dilysu oedran hefyd, gan nodi bod angen y cymhellion cywir yn y Bil a fyddai'n caniatáu i gwmnïau fuddsoddi yn y technolegau cywir. deddfu yn y maes hwn<br>• Cododd Aelod o'r Pwyllgor fater yr angen am eiriolwr defnyddwyr telegyfathrebiadau ar gyfer Cymru ac a allai'r Pwyllgor Cynghori chwarae rhan yma. | |

| | |
|---|---|
| | |
| **9. Diweddariad – Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu**<br>Trafododd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu y ddadl ddiweddar a gynhaliwyd ar adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar gysylltedd digidol. Nododd fod Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, wedi sôn yn ei gyfraniad am bryderon ynghylch Protocol Llais dros y Rhyngrwyd a Thariffau Cymdeithasol yn benodol. Nododd ymhellach y bydd y Gweinidog yn adrodd ar gynnydd yn y meysydd hyn.<br>Dywedodd yr Aelod ei bod wedi mynychu'r Bwrdd Allgáu Digidol gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i drafod beth arall y gellid ei wneud ar y Tariffau Cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd ar incwm isel.<br>Cododd yr Aelod fater dosbarthu post yn Rhondda Cynon Taf. Yn ôl grwpiau cyfryngau cymdeithasol lleol, adroddwyd bod gweithwyr y Post Brenhinol wedi cael cyfarwyddyd i flaenoriaethu danfon parseli cyn llythyrau. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn arwain at bobl yn colli apwyntiadau ysbyty, a oedd yn golygu bod hyn yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Cytunwyd i fynd ar drywydd y mater hwn. | |
| **10. Cyflwyniad: Channel 4**<br>Rhoddodd Gwawr Martha Lloyd, Comisiynydd Drama a Briony Robinson, Polisi a Materion Cyhoeddus, y wybodaeth ddiweddaraf am waith Channel 4 yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• Mae Channel 4 yn dal wedi ymrwymo i'w wariant yng Nghymru gyda'r bwriad o gynyddu ei fuddsoddiad y flwyddyn nesaf<br>• Roedd Channel 4 yn cael mwy o sgyrsiau gyda'r sector annibynnol yng Nghymru. Roedd agor Stiwdios newydd Bottle Yard yng nghyffiniau Bryste yn ei gwneud yn fwy deniadol i gwmnïau cynhyrchu weithio yn yr ardal.<br>• Roedd cynyrchiadau fel drama gefn-gefn Y Golau / The Light in the Hall yn enghraifft dda o gydweithio rhwng Channel 4, S4C, Duchess St a Triongl. Roedd Channel 4 wrthi'n chwilio am fwy o gyfleoedd cyd-gynhyrchu gyda'r sector annibynnol ac roedd llawer eisoes yn cael eu datblygu<br>• Tynnodd Channel 4 sylw at y gwaith yr oeddent yn ei wneud gyda Chwarel yng Ngogledd Cymru yn gweithio ar brosiectau fel Tŷ Am Ddim / Great House Giveaway a'r fersiwn Gymraeg o Gogglebox.<br>• Roedd y gronfa annibynnol newydd ar gyfer comisiynau newydd yn gyfrifol am gydgynhyrchiad arall, gydag Afanti y tro hwn, sy'n cynhyrchu fersiwn operatig o nofel Caradog Pritchard, Un Nos Ola Leuad / One Moonlit Night. Bydd yn cael ei darlledu yn Gymraeg ar Channel 4.<br>• Mae Channel 4 wedi sefydlu Canolfan Newyddion Caerdydd yn y Senedd i adrodd y straeon o bob cwr o Gymru. Mae'r tîm yn cynnwys tri o bobl, a'r prif newyddiadurwr yw Andy Davies.<br>• Mae Channel 4 wedi ymrwymo i'w gynllun hyfforddi a'i nod yw gweithio gydag eraill yn y sector i lansio cynllun ysgolion yng Nghymru y flwyddyn nesaf. | |
| **11. Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom - ar lafar**<br>Roedd yr Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom wedi anfon ei ymddiheuriadau, ond wedi rhoi nodyn i'r Cadeirydd ymlaen llaw. | |
| **12. Ymateb i Ymgynghoriadau:**<br>*Mae'r canlynol yn gyhoeddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor: -*<br>• Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2021-22 | |

| | |
|---|---|
| • Ymgynghoriad: Newidiadau arfaethedig y BBC i'r Drwydded Weithredu<br>• Ymgynghoriad: Sut mae Ofcom yn Rheoleiddio'r BBC: ymgynghoriad ar newidiadau i ganllawiau ar gystadleuaeth<br>• Datganiad: Penderfyniad perthnasedd ar newidiadau i BBC iPlayer<br>• Dull gweithredu Ofcom ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol: casgliadau cychwynnol<br>• Cynllun Gwaith Drafft Ofcom ar gyfer 2023-24 | |
| **13. Y wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr**<br>Nodwyd y cynnwys | |
| **14. Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod**<br>Nodwyd y cynnwys | |
| **Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**<br>**Unrhyw fater arall -**<br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br>27 Chwefror 2023 | |

_____________________________ **Dyddiad**: _____________________

Cadeirydd

[remove for published minutes]